

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWDYD AR NOS
FAWRTH 13EG O FAI 2014 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Clwyd Thomas (Cadeirydd), Medwyn Jones, Gwyn Howatson, Ian Hession, Mike Denman, Siân Davies, Dewi Roberts, Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Deryl Roberts a Brynle Lloyd.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 11eg o Fawrth 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd ymateb gan Gymdeithas Tai Clwyd ynglŷn ar Eglwys Rhewl a adroddwyd:-

1. Mae'r aelodau'r Eglwys wedi cael amserlen i hawlio unrhyw berchnogaeth.
2. Mae'r Cwmni yn cytuno rhoi'r Gloch a'r Twr i'r Gymuned ond nid oeddent yn ffyddiog bydd y Twr yn dŵad i lawr mewn un darn oherwydd stad y coed. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc gofyn i Gymdeithas Tai Clwyd cael caniatâd y Cwmni i weld stad y twr i weld os oes modd i'w arbed.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch am dal aelodaeth 2014/15 Un Llais Cymru.

C. Derbyniwyd cadarnhad bod Mr Tudor Jones o Gwmni Cennin wedi cychwyn sefydlu'r Wefan y Cyngor.

4. PENODI CADEIRYDD AM Y TYMOR 2014/15.

Penodwyd Y Cyngorydd Siân Davies yn Gadeirydd y Cyngor am y tymor 2014/15.

5. PENODI IS-GADEIRYDD AM Y TYMOR 2014/15.

Penodwyd Y Cyngorydd Mike Denman yn Is-gadeirydd y Cyngor am y tymor 2014/15.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £9,451.00.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r Precept am 2014/15 - £2,632.00.

C. Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Clerc Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2014.

D, Taliadau:-

1. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2014 - £144.00.

2. AON – Yswiriant Blynyddol - £777.41.

3. DVSC – Tal Aelodaeth 2014/15 - £15.00.

E. Derbyniwyd gwahoddiad Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion gan Gyngor Sir Ddinbych ar 9fed o Orffennaf 2014 am gost o £35.00 y person. Penderfynwyd yr Aelodau i beidio â mynychu'r hyfforddiant.

7. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio a dau Dyrbin Wynt ar dir i'r dwyrain o Fferm Ysgeibion, Cyffylliog.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Sied amaethyddol yn Nhŷ Mawr, Llanrhaeadr.

2. Sied amaethyddol ym Mhlas-y-ward, Rhewl.

C. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Manylion ychwanegol am Dyrbin Wynt yn Fferm Golf Links, Rhewl.

2. Gweithdy a thanc olew yn Chwarel Craig-y-Ddwyart, Rhewl.

3. Estyniad at Y Garreg Wen, Rhewl.

4. Ail adeiladu preswyl yn Nhŷ Celyn, Rhewl.

5. Adeilad Amaethyddol yn Bod Ynys, Rhewl (dangoswyd Y Cynghorydd Dewi Roberts diddordeb yn y cais a gadawodd yr ystafell).

8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar broblemau ar y Llwybr Cyhoeddus Lôn Clywedog/Clwyd.

B. Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â phrinder golygfa'r lon beics ar ffordd Cae Brics (Cynghorydd Merfyn Parry i dynnu sylw Ben Wilcox-Jones).

C. Penderfynwyd tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â phrinder golygfa ar gylchfan ffordd Dinbych yn Rhuthun oherwydd tyfiant gwrych.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 8fed o Orffennaf 2014 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.